

## Plant ac Ieuenctid

**Darlleniad 1: Samuel 3: 1-10**

**Darlleniad 2: Mathew 18: 1-5**

---

---

O! Dduw ein Tad, yr ydym yn cydnabod dy ffyddlondeb di o dragwyddoldeb i dragwyddoldeb. Bendigwn dy enw am dy fod yn drugarog a graslon, ac am fod dy gyfiawnder i bob cenedlaeth. Diolchwn am dy fod yn bendithio plant, yn rhoddi egni a gobeithion i'r ifainc, ac am dy fod yn gyson yn adnewyddu ieuenctid dy bobl.

Deuwn yn awr i gofio ger dy fron blant a phobl ifainc ein heglwysi a'n hardal, a holl ieuenctid ein gwlad a'n byd. Diolchwn i ti am y rhai ifainc yn ein cymdeithas, am glywed eu lleisiau a'u chwerthin, am y bywyd a'r asbri sy'n perthyn iddynt, am eu chwilfrydedd a'u brwdfrydedd, am y llaw sy'n gafael a'r llygaid sy'n rhyfeddu, am bob ffydd ac ymddiriedaeth a geir ynddynt. Wrth ymateb i ofynion plant, dyro i'r rhai sy'n hŷn hiwmor ac amynedd, gostyngeiddrwydd i ddysgu, a gras i wrando a chynghori. Rho i bob un gofio'i blentyndod ei hunan. Dyro hynawsedd wrth ddelio â direidi plant, cadernid i roi iddynt safonau a chanllawiau, a pharodrwydd i'w hyfforddi ar ddechrau eu taith.

Deisyfwn am y ddawn i drafod a pharchu'r rhai sy'n tyfu'n bobl ifainc, yng nghyfnod eu twf a'u datblygiad. Dyro i bawb o'u cwmpas ddealltwriaeth a gallu i gydymdeimlo, unplygrwydd i roi esiampl ddilys, a'r gefnogaeth sy'n rhoi cyfle iddynt ddysgu ymarfer eu rhyddid mewn perthynas iach ag eraill. Gweddïwn dros blant ac ieuenctid trwy'r byd, yn enwedig y rhai sy'n cael cam; y rhai sy'n cael eu cam-drin lle dylent gael gofal; yn blant o ran oed, ond wedi'u hamddifadu o blentyndod; yn ysglyfaeth i gyffuriau, budr-elwa a militariaeth; y rhai sy'n marw o effeithiau tlodi a newyn; y rhai sy'n dioddef lle ceir gorthrwm a rhyfela; y rhai sy'n gwbl amddifad ac yn tyfu'n galed mewn awyrgylch ddidostur; y rhai sy'n brin o addysg; y rhai sydd heb feddyginiaeth i'w

hafiechydon.

Cofiwn ieuentid difreintiedig y byd, a phob un a phob mudiad sydd ar waith i'w helpu a'u gwasanaethu. Deisyfwn dy fendith ar bawb sy'n gofalu am blant: rhieni da sy'n rhoi i'w plant gariad a diogelwch a disgyblaeth; athrawon ymroddedig a llawn dychymyg sy'n eu dysgu; rhai sy'n gweithio gyda phlant mewn angen; rhieni maeth; mudiadau sy'n achub cam llawer plentyn; athrawon Ysgol Sul, ac eglwysi sy'n effro i'w cyfle i gyflwyno Iesu Grist i'r plant. Deisyfwn dy arweiniad i bawb sy'n gweithio gyda ieuentid - i ysgolion a cholegau, ar iddynt ddeffro meddwl a rhoi cyfle i ddatblygu doniau, ennyn brwdfrydedd, a pharatoi pobl ifainc, nid yn unig ar gyfer gyrfa a galwedigaeth ond hefyd i feddu ar bersonoliaeth gytbwys; i fudiadau ieuentid, gan gofio'n neilltuol yr holl fudiadau sy'n gwasanaethu pobl ifainc Cymru, yn rhoi cyfle iddynt feddwl a gweithredu, mwynhau bywyd a chyfrannu i'r gymdeithas o'u cwmpas.

Gweddiwn yn neilltuol dros ein heglwysi, am ennyn o'u mewn weithgarwch newydd gyda'r ifainc, am iddynt fod yn barod i roi i'r ifainc eu cyfle, i ddeall eu byd, eu ffordd o feddwl, eu dyheadau a'u pryderon. Gweddiwn am achub ac ennill yr ifainc i'r efengyl, ac am i'r Eglwys gyfan ddarganfod ysbryd y plentyn o'r newydd. Dyro lygad i ganfod holl ryfeddod y bywyd a roddest. Adnewyddda'n ffydd a'n hymddiriedaeth ynot ti, y Tad. Ac fel y tyfo pob cenhedlaeth, pâr iddynt dyfu yng Nghrist, yn ei gariad ac yn ei waith. Er mwyn dy enw, ac er mwyn dy ogoniant. Amen.

*John Rice Rowlands*